

STRATEGAETH CYNHWYSIANT ARIANNOL 2015 - 2020

TACHWEDD 2015



1. CYFLWYNIAD

1.1. Mae cynllun corfforaethol CCG 2015-2020 yn nodi gweledigaeth y cwmni

Bod yn flaenllaw wrth ddarparu tai o safon - gan gwrdd ag anghenion cwsmeriaid, a pharchu cymunedau.

1.2. Ein nodau o fewn y cynllun corfforaethol yw

- Ein bwriad yw cwrdd ag anghenion ein cwsmeriaid gan eu hannog i gymryd rhan i siapio sut cânt eu dylunio a'u darparu
- Tyfu fel busnes i sicrhau hyfywedd hir dymor
- Rheoli ein hasedau i gynnal eu gwerth ac uchafu incwm a sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion cwsmeriaid
- Hyrwyddo cymunedau cynaliadwy drwy weithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau effeithiol.

1.3. Yn sail i'r nodau hyn mae amcanion sy'n cynnwys

- Ymchwilio a buddsoddi mewn technoleg i wella mynediad y cwsmer a rhannu gwybodaeth
- Bod yn landlord teg sy'n sicrhau tenantiaethau cynaliadwy
- Rheoli ein heiddo yn effeithiol i leihau colled incwm
- Gwneud ein cymunedau yn llefydd gwell i fyw
- Deall ein cymunedau a chanolbwyntio ar weithgareddau a chefnogi'r rhai sydd a'r angen mwyaf
- Cynyddu cyfleoedd i'r economi leol o'n gweithgareddau

1.4. Er mwyn i'n cwsmeriaid gael budd o ddeilliannau'r nodau a'r amcanion hyn mae angen iddynt gael eu cynnwys yn Ariannol. Mae'r egwyddorion sy'n sail i'n cynllun corfforaethol yn allweddol i gyflawni hyn:

- Byddwn yn cyfathrebu yn effeithiol gyda'n tenantiaid, staff a rhanddalwyr
- Byddwn yn greadigol wrth ddefnyddio cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth i ddarparu ein gweledigaeth

1.5. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu ein fframwaith a dull o gyflwyno Cynhwysiant Ariannol (CA) ac mae'r Cynllun Gwella Cynhwysiant Ariannol yn dangos sut y byddwn yn cwrdd â'r amcanion hynny a nodwyd gennym. Wrth adeiladu ar Strategaeth CA cyntaf CCG, amlinellir y camau y mae CCG yn bwriadu eu cymryd dros y 5 mlynedd nesaf i sicrhau bod ein cwsmeriaid yn gallu gwella eu CA. Fel rhan o strategaethau a pholisïau allweddol eraill fel Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid, Strategaeth Cyfathrebu, a Pholisi Ôl-Ddyledion Rhent, mae'r Strategaeth CA wedi ei ddylunio i fwyhau gallu ein tenantiaid i wneud y mwyaf o'u harian a thrwy hynny, wella eu lles a gwneud y gorau o'r cyfleoedd y gall ein cymunedau eu cynnig.

1.6. Tri o'r prif sialensiau ariannol y mae ein cwsmeriaid yn eu hwynebu yw:

- Newidiadau i fudd-daliadau
- Technoleg yn newid

- Cyllidebau aelwydydd o dan bwysau

1.7. Mae sicrhau Cynhwysiant Ariannol felly yn fwy pwysig nag erioed. Mae yna gyswllt uniongyrchol rhwng gallu ein cwsmeriaid i reoli eu harian a'u gallu i dalu rhent a chynnal eu tenantiaethau - sy'n allweddol i hyfywedd hir dymor CCG.

2. PAM CAEL STRATEGAETH?

2.1. Mae'n hanfodol fod gan CCG Strategaeth Cynhwysiant Ariannol er sicrhau bod ein cwsmeriaid a'n staff yn gallu gwneud y mwyaf o'u harian, gwella eu lles a gwneud y gorau o'r cyfleoedd y mae ein cymunedau yn eu cynnig.

2.2. Ym mis Gorffennaf 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LIC) strategaeth CA i Gymru sef 'Mae Pawb yn Cyfrif'. Mae'r strategaeth hon yn adnabod y gall pob Cymdeithas Dai:

arwain y ffordd wrth frwydro yn erbyn allgáu ariannol ymysg eu tenantiaid a thrigolion drwy gynnig amrywiaeth o wasanaethau ariannol a chynghor diduedd, yn enwedig drwy ganfod problemau ariannol yn gynnar.'

2.3. Yn fwy diweddar, mae LIC wedi cyflwyno Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) 2014. Mae'r Bil yn datgan fod Cynhwysiant Ariannol yn golygu bod gan bobl fynediad at wasanaethau ariannol (cynilion, credyd, yswiriant a gwasanaethau trosglwyddo arian) ac addysg ar ddefnydd o arian (defnyddio gwasanaethau ariannol, rheoli dyled) ar gost rhesymol. Mae'r Bil yn adnabod y blaenoriaethau canlynol:

- Cael sgiliau llythrennedd ariannol
- Cael sgiliau priodol o ran rheolaeth ariannol
- Hwyluso mynediad am ddim i addysg ar arian ar-lein a gwasanaethau rheoli
- Cynnwys ar wefannau gwybodaeth ar lle i gael cynghor am reoli arian.

2.4. Mae adroddiad gan Y Comisiwn Cynhwysiant Ariannol Mawrth 2015 wedi adnabod bod gormod o bobl, wedi eu heithrio, neu yn methu ymgysylltu gyda, gwasanaethau ariannol sy'n hanfodol fel bo pobl yn cymryd rhan lawn mewn cymdeithas fodern.

- i reoli arian
- amsugno digwyddiadau a allai beri sioc, a
- chynllunio a sicrhau fod arian ar gael i'r dyfodol

Disgrifiodd gymdeithas cynhwysiant ariannol fel un lle mae gwasanaethau ariannol ar gael i bawb, yn rhwydd i'w ddefnyddio ac yn cwrdd ag anghenion pobl drwy gydol eu hoes. Daeth i'r casgliad fod Cynhwysiant Ariannol yn golygu fod gan bobl sgiliau a'r cymhelliant i ddefnyddio gwasanaethau ariannol, ac i gael budd ystyrlon ohonynt.

2.5. Datganodd Strategaeth Mawrth 2015 'Money Advice Service Financial Capability' fod nifer o bobl yn cael trafferth gwneud y mwyaf o'u harian ac angen cymorth i wella eu galluoedd ariannol i'w galluogi i gael y lles ariannol gorau.

Mae angen gallu Ariannol i roi cymorth i bobl wneud penderfyniadau gwell am eu harian, ac i sicrhau eu lles o ran eu sefyllfa ariannol. Awgrymodd fod angen iddo ddyllanwadu ar ymddygiad pobl i'w galluogi i wella:

- Sgiliau a gwybodaeth
- agwedd tuag at arian
- cymhelliant i weithredu
- mynediad at system ariannol

2.4 Bydd y strategaeth yn darparu fframwaith clir lle gallwn:

- Amlinellu sut y byddwn yn gwella CA ein cwsmeriaid
- Adnabod ffrydiau gwaith allweddol ar gyfer gwella CA
- Sicrhau ein bod ni'n canolbwyntio ar y pethau cywir sydd o bwys i'n cwsmeriaid a fydd yn arwain at welliannau i'w CA.
- Sicrhau ein bod ni'n rhoi CA ar waith ym mhob agwedd o'n gweithgareddau;
- Dangos ein hymrwymiad i CA i'n tenantiaid, staff, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill
- Cyflawni amcanion y strategaeth drwy Gynllun Gwella CA
- Mesur ein cynnydd yn systematig

3. BETH YDYM YN EI FEDDWL DRWY 'GYNHWYSIANT ARIANNOL'?

3.1. Caiff Cynhwysiant Ariannol ei ddiffinio fel a ganlyn:

'Bod gan bawb fynediad i amrywiaeth briodol o gynhyrchion a gwasanaethau ariannol, sy'n eu galluogi i reoli eu harian yn effeithiol, pa beth bynnag eu hincwm, eu statws cymdeithasol neu eu gallu.'


4. AMCAN Y STRATEGAETH

4.1. Mae ein strategaeth CA o gymorth i'n cwsmeriaid a'n staff fod yn fwy gwydn yn ariannol er gwrthsefyll digwyddiadau a allai beri sioc. Er enghraifft, bod yn barod yn ariannol ar gyfer digwyddiadau fel y peiriant golchi neu'r car yn torri lawr, gostyngiad yn nifer oriau gwaith neu newidiadau i fudd-daliadau.

4.2. Yn ôl Money Advice Service, mae bod yn wydn yn golygu:

- Bod yn barod - cael cynilon, yswiriant ayb. i allu gwario heb fynd i ddyled anfforddiadwy
- Bod yn hyblyg - gallu newid ffordd o fyw ac arferion gwario yn gyflym os ydi lefelau incwm yn lleihau
- Cymryd cyfrifoldeb - cymryd perchnogaeth a chymryd camau gweithredol i dacio problemau ariannol neu wneud y mwyaf o gyfleoedd ariannol.
- Delio ag emosiynau - mae'n anodd ystyried sefyllfa ariannol wrth ddelio ag emosiynau cythryblus a ddaw gyda digwyddiad mewn bywyd

4.3. I ddod yn fwy hydwyth yn ariannol rydym yn ceisio rhoi cymorth i'n cwsmeriaid a staff ddringo'r **Ysgol Cynhwysiant Ariannol**



- **Diogelwch** - Cael cynllun ariannol da a sicrhau bod arian wrth gefn ar gyfer ffordd o fyw i'r dyfodol.
- **Gwydnwch** - wedi adeiladu arian wrth gefn digonol i wrthsefyll digwyddiadau a allai beri sioc
- **Cael dau ben llinyn ynghyd** - ymdopi gydag arian o ddydd i ddydd ond nid yn wydn iawn
- **Yn ei chael hi'n anodd yn gyson** - yn ei chael hi'n anodd cadw pen uwchben y dŵr Yn debygol iawn o oddef yn sgil digwyddiad sy'n peri sioc
- **Methu dal i fyny** - yn profi problemau dyled dybryd ar hyn o bryd ac yn methu a chael dau ben llinyn ynghyd

5. AMCANION Y STRATEGAETH

5.1. Amcan y strategaeth yw bod ein cwsmeriaid a'n staff yn gallu dweud:

- Rwy'n gwybod sut i reoli fy arian o ddydd i ddydd (chwilio am y pris gorau, torri yn ôl, cyllidebu)
- Rwy'n gwybod sut i gynllunio ar gyfer y dyfodol (rhoi arian i un ochr rhag ofn bod rhywbeth yn mynd o'i le neu ar gyfer amcan tymor hir)
- Gallaf ymdopi pan fyddaf yn mynd i drafferthion (siarad yn agored am arian, gwybod lle i droi am gefnogaeth a chyngor cyn ei bod hi'n rhy hwyr)

5.2. I gyflawni hyn, bydd CCG yn gweithio tuag at

- Gwella gallu ein cwsmeriaid i wneud penderfyniadau ariannol priodol
- Newid agwedd ein cwsmeriaid - eu hagwedd a'u cymhelliant ynghylch y modd y maent yn rheoli eu harian

- Galluogi ein cwsmeriaid a'n staff i gael mynediad at gynnyrch ariannol, cyngor a chymorth.

6. CYNHWYSIANT ARIANNOL, CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

- 6.1. Mae CCG yn adnabod effaith gadarnhaol y gall cael eich cynnwys yn ariannol gael ar grwpiau sy'n cael eu gwarchod. Bydd y canlynol yn cael eu hystyried wrth gyflwyno'r strategaeth:

Oed - Bydd gweithgareddau CA wedi ei dargedu at dri grŵp oedran:

- Dan 25 sydd ag ychydig o brofiad o redeg cartref, ac yn derbyn budd-daliadau nad ydynt mor hael â rhai y mae pobl hŷn yn eu derbyn.
- Pobl oed gweithio
- Pobl hŷn sydd wedi ymddeol sy'n ddibynnol ar eu pensiwn, ac a allai fod yn fwy tebygol o gael galwadau diwahoddiad

Anabledd - bydd gan bobl sy'n anabl neu gydag iechyd gwael gostau ychwanegol i ddod dros eu hanabledd, a bydd llai o opsiynau ar gael iddynt gynyddu eu hincwm.

Beichiogrwydd a Mamolaeth - mae'r costau sy'n gysylltiedig gyda chael babi yn sylweddol gan gynnwys prynu'r offer, bwyd, a gofalu bod y tŷ'n gynnes.

Rhyw'r person - Bydd Credyd Cynhwysol yn cael ei dalu i un person yn y cartref a gallai hyn atal mynediad teg at yr arian sydd ar gael rhwng partneriaid.

Crefydd a Chred - nid yw rhai arferion banciau'r DU e.e. talu llog, yn cyd-fynd gyda chrefydd a chred rhai pobl.

Hil - nid oes gan rai pobl o du allan i'r DU lawer o ddealltwriaeth o'r modd y mae'n systemau ariannol yn gweithio.

7. MEYSYDD SYDD ANGEN EU DATBLYGU A GWELLA

- 7.1. **Methu dal i fyny** - Bydd CCG yn adnabod cwsmeriaid sy'n methu â thalu rhent a bydd yn ymchwilio i ddulliau adnabod cwsmeriaid sydd â sawl dyled. Pan fydd cwsmeriaid o'r fath yn cael eu hadnabod bydd CCG yn eu cyfeirio at sefydliadau allanol fel Shelter neu Cyngor ar Bopeth ar gyfer cymorth un i un ar ddyled a chyllidebu. Bydd CCG hefyd yn ymchwilio i hyfywedd cyllido capasiti cymorth dyled ychwanegol i leihau amser aros ar gyfer apwyntiadau cyngor ar ddyled.

- 7.2. Yn ei **chael hi'n anodd yn gyson a methu cael dau ben llinyn ynghyd** - mae CCG yn ceisio cynorthwyo cwsmeriaid i ddringo'r Ysgol Cynhwysiant Ariannol drwy:

- Ddarparu gwybodaeth i wella sgiliau a gwybodaeth ein cwsmeriaid i wneud penderfyniadau ariannol priodol.
- Dylanwadu ar agwedd a chymhelliant ein cwsmeriaid i gynorthwyo gyda siapio eu hymddygiad wrth ymdrin ag arian.
- Darparu gwybodaeth hawdd i gael mynediad ato am gynnyrch ariannol , cyngor a chymorth.

7.3. **Gwydnwch a Diogelwch** - bydd modd i gwsmeriaid yn y categori hwn gael budd o'n deunyddiau cyfathrebu cyffredinol er mwyn atal mynd lawr y r Ysgol Cynhwysiant Ariannol.

7.4. **Cyfathrebu** - bydd cyfathrebu da a rhannu gwybodaeth yn allweddol i'r strategaeth hon. Bydd cyfathrebu mewn perthynas â CA yn cael ei lywodraethu gan strategaeth gyfathrebu corfforaethol CCG. Byddwn yn gwneud defnydd o sianelau cyfathrebu presennol CCG i gwrdd â'r gynulleidfa a rhannu gwybodaeth/newid ymddygiad.

Bydd CCG yn cyfeirio ein cwsmeriaid a staff i wasanaethau gwe defnyddiol, e.e. Money Advice Service, Turn2Us. Bydd CCG hefyd yn paratoi taflenni gwybodaeth ac yn defnyddio erthyglau yn newyddlenni tenantiaid a staff ac yn styried dulliau eraill o gyfathrebu negeseuon allweddol i'n cwsmeriaid a'n staff.

Bydd ymgyrchoedd penodol yn ceisio codi ymwybyddiaeth ynghylch cynnyrch ariannol fel cyfrifon banc ac yswiriant cynnwys y cartref; sgamiau ariannol; a defnydd o Debyd Uniongyrchol a dulliau eraill o dalu rhent. Bydd negeseuon camarweiniol yn cael eu chwalu; negeseuon camarweiniol tebyg i - bod ymdrin yn dda ag arian yn anodd; a hybu negeseuon fel - mae ymdrin yn dda ag arian a chwilio am gymorth amserol yw'r peth iawn i'w wneud.

7.5. **Credyd Cynhwysol a newidiadau i fudd-daliadau** - Bydd CCG yn gweithio gydag ymgyrch Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru 'Our Benefits are changing' ac yn gweithio mewn partneriaeth gyda AGP, Cyngor Gwynedd a sefydliadau lleol eraill i sicrhau bod tenantiaid a staff yn ymwybodol o'r newidiadau ac yn barod i ddelio gyda newidiadau yn incwm.

7.6. **Cefnogaeth cyflogaeth** - bydd CCG yn edrych fewn i'r posibilrwydd o gefnogi ein cwsmeriaid i ddod yn agosach at ganfod gwaith. Gallai hyn ddigwydd drwy weithio gyda sefydliadau fel y Ganolfan Byd Gwaith sy'n arbenigo yn y maes hwn neu ymchwilio i hyfywedd cynnig cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli neu gael prentisiaeth gyda CCG, neu ei gontractwyr gan arwain at brofiad neu gymwysterau cydnabyddedig. Bydd CCG yn cefnogi gweithio o gartref fel bo'n briodol, ac yn cefnogi trosglwyddiadau i dai yn agosach at fan gwaith.

7.7. **Cynyddu incwm/fforddiadwyedd** - bydd CCG yn gweithio gyda cwsmeriaid unigol i ganfod grantiau i'w cynorthwyo gyda phrynu nwyddau tŷ hanfodol, ac yn gweithio gyda sefydliadau i hybu ailgylchu dodrefn er sicrhau ffynonellau dodrefn ail law rhad.

Bydd CCG yn cefnogi unigolion i hawlio budd-daliadau lles a Budd-daliadau Tai yn ôl Disgresiwn y mae ganddynt hawl iddo ac yn cynorthwyo i apelio yn erbyn cosbau a lle mae penderfyniadau yn mynd yn erbyn ein cwsmeriaid.

7.8. **Tenantiaid Newydd** - mae CCG yn cydnabod mai'r 12 mis cyntaf o denantiaeth newydd yw'r anoddaf. Bydd CCG yn ymgymryd â chyfweliad Incwm a Gwariant gyda thenantiaid newydd i sicrhau eu bod yn gallu fforddio costau rhedeg eu cartref, ac yn ymchwilio gan ddefnyddio gwiriadau ymlaen llaw i adnabod darpar denantiaid a allai fod angen rhagor o gymorth gyda rheoli eu harian. Bydd tenantiaid newydd yn cael eu monitro ac yn derbyn ymweliadau cyson hyd iddynt ddangos eu bod yn gallu cynnal eu tenantiaeth.

- 7.9. **Tenantiaid sydd mewn peryg o gael eu troi allan** - Bydd CCG yn gweithio gyda Tîm Digartrefedd Cyngor Gwynedd i ymchwilio i'r modd y gall tenantiaid sydd ag ôl-ddyled dybryd aros yn eu cartref.
- 7.10. **Tlodi Tanwydd** - Bydd CCG yn ymchwilio hyfywedd cyllido prosiectau megis Wardeiniaid Ynni i ddarparu cyngor un i un i leihau tlodi tanwydd, a bydd yn ymchwilio i ddefnyddio technoleg fwy cynaliadwy a rhatach ar gyfer gwresogi ein cartrefi a darparu dŵr poeth mewn ardaloedd lle nad oes nwy ar gael. Byddwn hefyd yn parhau i wella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi.
- 7.11. **Technoleg** - Bydd CCG yn datblygu strategaeth Cynhwysiant Digidol fydd yn manylu sut y bydd ein cwsmeriaid yn derbyn cymorth i gael budd o dechnoleg newydd. Thema graidd y strategaeth CD fydd cyfeirio cwsmeriaid i'r adnoddau ar-lein priodol - fydd yn cynnwys adnoddau i gefnogi CA.
- 7.12. **Mynediad at wasanaethau banc a chynnyrch ariannol** - bydd CCG yn cefnogi tenantiaid roi tystiolaeth angenrheidiol ac anogaeth sy'n ofynnol i agor cyfrifon banc ac i fanteisio ar wasanaethau a chynnyrch ariannol priodol arall.
- 7.13. **Codi tâl am wasanaethau** - Wrth gynllunio gwaith mawr neu newidiadau sy'n golygu codi tâl am wasanaeth, bydd CCG yn ymgynghori gyda'n cwsmeriaid i ystyried gwahanol opsiynau ar gyfer cwrdd â'r deiliant gofynnol. Ffactor pwysig wrth benderfynu pa opsiwn i'w ddefnyddio yw - ystyried a ydi'r costau yn rhesymol i'n cwsmeriaid.
- 7.14. **Staff Gwybodus** - Bydd staff CCG yn cael mynediad at ddeunyddiau hyfforddi priodol a briffiadau fel y gallant gyfeirio neu gefnogi ein cwsmeriaid.
- 7.15. **Trwydded Credyd Defnyddwyr** - bydd CCG yn sicrhau bod ganddo'r Drwydded Credyd defnyddwyr priodol i ymgymryd â gweithgareddau a amlinellir yn ei strategaeth CA.

8. PROSIECT DIWYGIO LLES

- 8.1. Mae CCG wedi adnabod fod y newidiadau i'r system Budd-dal Lles yn risg i hyfywedd hir dymor CCG a bydd yn sefydlu prosiect corfforaethol i liniaru effaith newidiadau Budd-dal ar ein tenantiaid. Bydd y strategaeth hon yn sail i waith prosiect Diwygio Lles ac yn siapio'r elfen o'r prosiect sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth wyneb i wyneb cwsmeriaid.

9. PRIF FFRYDIO CYNHWYSIANT ARIANNOL

- 9.1. Bod rhaid i'n cwsmeriaid a'n staff gael eu cynnwys yn ariannol yn gyfrifoldeb sy'n cael ei brif ffrydio drwy CCG. Gall pob un ohonom wneud gwahaniaeth

9.2. Bwrdd CCG

- Cymeradwyo'r strategaeth
- Bod yn ymwybodol o gynnwys y strategaeth a'i hyrwyddo fel bo'n briodol
- Sicrhau bod y strategaeth yn cael ei roi ar waith yn effeithiol

9.3. Y Bartneriaeth

- Monitro gweithrediad y strategaeth

9.4. **Tîm Rheoli Gweithredol**

- Sicrhau bod y strategaeth yn derbyn perchnogaeth ar draws CCG.
- Goruchwyllo gwaith CA yr SMT

9.5. **Uwch Dîm Rheoli**

- Bod yn bencampwyr CA
- Sicrhau bod materion CA yn cael ei hystyried drwy'r broses penderfynu a chreu polisi a phob agwedd i waith CCG.
- Hybu CA o fewn adrannau a gweithle
- Bod yn adnodd gwybodaeth ac arbenigedd ar CA gan gynghori cydweithwyr ar CA
- Bod yn 'ffrind critigol' mewn perthynas â gweithgareddau CA eu hadran; er enghraifft drwy herio arferion gwaith presennol yn adeiladol

9.6. **Holl reolwyr**

- Rhoi gweithgareddau perthnasol ar waith fel sydd wedi eu hadnabod yn y Cynllun Cyflawni Strategaeth CA
- Sicrhau bod staff yn derbyn lefelau priodol o hyfforddiant er mwyn prif ffrydio CA
- Rhoi ystyriaeth lawn i gostau i'n cwsmeriaid wrth ddatblygu gwasanaethau newydd, polisiâu a phrosesau.

9.7. **Holl staff CCG**

- Bod yn llysgenhadon ar gyfer rhaglen CA CCG.
- Cyflawni gweithgareddau CA fel bo'n briodol
- Bod yn ymwybodol bod pob cyswllt gyda'n cwsmeriaid yn gyfle i wella eu CA.
- Adnabod ac adrodd am ymarferion CA da i'r grŵp CA
- Cymryd cyfleoedd i gael eu cynnwys yn ariannol eu hunain.

9.8. **Grŵp Cynhwysiant Ariannol**

- Cefnogi rhoi'r strategaeth ar waith a chofnodi ei fuddion
- Bod yn pro actif o ran darparu cefnogaeth a chyngor ar CA i gyd weithwyr.
- Codi proffil rhaglen CA ymysg rheolwyr ac aelodau allweddol o staff
- Adolygu'r strategaeth CA a'r cynllun gweithredu'n rheolaidd

10. GWEITHREDU'R STRATEGAETH

- 10.1. Bydd cyflwyno'r strategaeth yn digwydd yn y lle cyntaf drwy gyfrwng Cynllun Gwella CA. Egwyddor ganolog yw ein bod yn gweld hyn yn hanfodol i gyflwyno ein strategaeth drwy'r cynllun gwella sydd wedi ei atodi fel Atodiad A.
- 10.2. Bydd y grŵp CA yn hybu ac o gymorth i gyflwyno CA o fewn CCG. Mae staff ar draws y sefydliad wedi dod at ei gilydd i ffurfio grŵp craidd staff.
- 10.3. Mae'r Cynllun Gwella CA yn ddarostyngedig i fonitro ac adolygu fel blaenoriaeth gorfforaethol allweddol.
- 10.4. Byddwn yn monitro cyflawniad y Strategaeth mewn amryw o ddulliau gan adlewyrchu ei bwysigrwydd i wahanol gynulleidfaoedd:
 - Byddwn yn adrodd yn flynyddol ar gynnydd i'r Bwrdd
 - Rydym yn adrodd yn flynyddol i'n preswylwyr ar berfformiad.

11. MONITRO A GWERTHUSO

- 11.1. Bydd CCG yn monitro cynnydd yn erbyn y Cynllun Gwella CA.
- 11.2. Wrth ymchwilio i'r strategaeth rhoddwyd y cyfle i denantiaid CCG sgorio eu hyder o ran rheoli eu harian. Gellir defnyddio'r canlyniadau fel gwaelodlin ar gyfer mesurau lefelau hyder i'r dyfodol.

